SKAAH7

Darparu amrywiaeth o wasanaethau llacio

Trosolwg

Mae'r safon yma'n ymwneud â darparu gwasanaethau llacio argymhellol. Mae'n ofynnol bod â'r gallu i ddadansoddi materion llacio, delio â gwallt wedi'i drin yn gemegol, gwallt wedi'i sensiteiddio a chynllunio a chytuno ar gamau gweithredu, gan y gall y driniaeth bara dros gyfnod o amser a nifer o apwyntiadau.

Er mwyn gweithredu'r safon hon, fe fydd angen ichi gynnal a chadw safon uchel o iechyd, diogelwch a hylendid trwy gydol eich gwaith. Fe fydd angen ichi hefyd gynnal gwisg a gwedd bersonol broffesiynol ac arddangos sgiliau cyfathrebu effeithiol.

Dyma brif ddeilliannau'r safon hon:

1. cynnal dulliau diogel ac effeithiol o weithio wrth ddarparu amrywiaeth o wasanaethau llacio
2. dadansoddi'r gwallt a chroen y pen
3. cynllunio a chytuno ar gamau gweithredu
4. darparu gwasanaethau llacio

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cynnal a chadw dulliau diogel ac effeithiol o weithio wrth ddarparu amrywiaeth o wasanaethau llacio

1. cynnal eich cyfrifoldebau iechyd a diogelwch trwy gydol y gwasanaeth
2. paratoi eich cleient i gyfarfod â gofynion y salon
3. amddiffyn dillad eich cleient trwy gydol y gwasanaeth
4. gosod eich cleient i gyfarfod â gofynion y gwasanaeth heb achosi anesmwythdra iddyn nhw
5. sicrhau bod eich osgo a'ch lleoliad wrth weithio yn lleihau blinder a'r risg o anaf
6. cadw eich man gwaith yn lân a thaclus trwy gydol y gwasanaeth
7. defnyddio dulliau gweithio sy'n:
7.1 lleihau gwastraff **cynhyrchion**
7.2 lleihau'r risg o draws-heintiad
7.3 gwneud defnydd effeithiol o'ch amser gwaith
7.4 sicrhau defnydd adnoddau glân
7.5 lleihau'r risg o niwed neu anaf i chi eich hunan ac eraill
7.6 hyrwyddo arferion gweithio amgylcheddol a chynaladwy
8. sicrhau bod eich hylendid, diogelwch a'ch gwisg a gwedd bersonol yn ateb gofynion diwydiant a sefydliadol derbyniol
9. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a chyflenwyr neu wneuthurwyr yngln â defnydd diogel cyfarpar, deunyddiau a **chynhyrchion**
10. gwaredu deunyddiau gwastraff
11. cwblhau steilio o fewn amser sy'n fasnachol ymarferol

Dadansoddi'r gwallt a chroen

12. defnyddio technegau **dadansoddi** i sefydlu natur a maint y **gwasanaeth llacio** a ofynnir gan eich cleient
13. adnabod o gofnodion blaenorol eich cleient, os ar gael, hanes eu gwallt a sut y gall hyn effeithio ar y **gwasanaeth llacio**
14. gofyn cwestiynau i'ch cleient er mwyn canfod os oes ganddyn nhw unrhyw wrth-arwyddion i'r **gwasanaethau llacio**
15. gofyn cwestiynau i'ch cleient er mwyn hel gwybodaeth am eu materion llacio a'r canlyniad yr hoffen nhw'i weld.
16. cofnodi ymateb eich cleient i'r cwestiynu

17. cynnal ystod o **brofion** ar wallt a chroen eich cleient gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr a gweithdrefnau cydnabyddedig y diwydiant
18. cymryd y camau priodol pan fo gwrth-arwyddion ac/neu adweithiau i brofion yn achosi amheuon gyda golwg ar addasrwydd y **gwasanaeth llacio** i'r cleient
19. adnabod yr opsiynau gwasanaeth a'r **cynhyrchion** sy ar gael i ddatrys materion llacio eich cleient, yn seiliedig ar ganlyniadau eich **dadansoddiad**

Cynllunio a chytuno ar gamau gweithredu

20. cyflwyno opsiynau addas ar gyfer camau gweithredu mewn modd y gall eich cleient ei ddeall
21. seilio eich argymhellion ar ganlyniadau eich **dadansoddiad**
22. esbonio'r tebygolrwydd o gyflawni a chadw'r radd ofynnol o sythder i'ch cleient
23. esbonio unrhyw gyfyngiadau gall eich argymhellion eu cael ar wasanaethau trin gwallt pellach
24. ennill a chofnodi cytundeb eich cleient i'r gwasanaeth, **cynhyrchion** a'r deilliant a ragwelir
25. dewis **cynhyrchion** ac **offer** yn seiliedig ar ganlyniadau eich dadansoddiad, **profion**, ymgynghoriad â'ch cleient a **ffactorau** sy'n dylanwadu ar y gwasanaeth
26. paratoi **cynhyrchion** gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
27. diogelu llinell y gwallt a chroen y pen cyn llacio
28. taenu triniaeth cyn-lacio er mwyn llyfnhau amsugnedd y gwallt neu i ddiogelu gwallt wedi'i drin yn gemegol yn flaenorol

Darparu gwasanaethau llacio

29. paratoi gwallt eich cleient ar gyfer y:
29.1 **cynhyrchion** sy i'w defnyddio
29.2 **gwasanaeth llacio** gofynnol
29.3 dull o daenu
29.4 cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
30. ddewis a defnyddio **cynhyrchion** llacio o'r un llinell cynnyrch trwy gydol y gwasanaeth gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
31. taenu'r math a'r maint o gynnyrch i gyfarfod â gofynion eich **dadansoddiad** a'r canlyniad gofynnol
32. gweithredu'r gwasanaeth llacio, gan gymryd i ystyriaeth **ffactorau** dylanwadol
33. defnyddio'r technegau taenu sy'n lleihau'r risg i'r llaciwr ledu dros groen a

dillad y cleient a'r mannau cyfagos

34. monitro'n aml ddatblygiad y **cynnyrch**, gan gymryd **profion** cudyn, fel bo'r angen

35. addasu a chymhwyso'ch cynllun gweithredu er mwyn datrys unrhyw broblemau anweledig

36. monitro cyfforddusrwydd eich cleient ar gyfnodau rheolaidd trwy gydol y **gwasanaeth llacio**

37. cyflawni gradd o sythder a ragwelwyd

38. tynnu unrhyw gemegau mewn modd sy'n lleihau'r risg o niwed i'r gwallt gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr

39. addasu tymheredd, pwysedd a chyfeiriad y dr er mwyn diogelu cyflwr y gwallt

40. adfer cydbwysedd pH y gwallt gan ddefnyddio triniaeth llacio addas

41. rhoi cyngor ac argymhellion i'ch cleient ar y gwasanaeth a ddarparwyd

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Cynnal a chadw dulliau effeithiol a diogel o weithio wrth lacio gwallt

1. eich cyfrifoldebau am **iechyd a diogelwch** fel y diffiniwyd gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â'ch swyddogaeth
2. gofynion eich salon yngln â pharatoi cleient
3. y dewis o ddillad diogelwch a ddylai fod ar gael i'ch cleientiaid
4. sut all lleoliad eich cleient a chi eich hun effeithio ar y deilliant a ddymunir a lleihau blinder a'r risg o anaf
5. pam ei bod mor bwysig i gadw'ch man gwaith yn lân a thaclus
6. yr ystyriaethau diogelwch sy raid eu cymryd i ystyriaeth wrth berfformio'r gwasanaeth llacio
7. dulliau o lanhau, diheintio a steryllu a ddefnyddir mewn salonau
8. y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli yn eich gweithle a'r arferion gweithio diogel y dylech eu dilyn
9. y gwahanol fathau o ddulliau gweithio sy'n hyrwyddo **arferion amgylcheddol a chynaladwy**
10. dulliau o weithio'n ddiogel a glanwaith ac sy'n lleihau'r risg o draws-heintiad a thraws-bla
11. pwysigrwydd hylendid a chyflwyniad personol wrth gynnal a chadw iechyd a diogelwch yn eich gweithle
12. cyfarwyddiadau cyflenwyr a gwneuthurwyr ar gyfer defnydd diogel cyfarpar, deunyddiau a chynhyrchion sy raid ichi eu dilyn
13. y dulliau cywir o waredu gwastraff
14. amserau gwasanaeth disgwyliedig eich salon ar gyfer steilio gwallt

Dadansoddi'r gwallt a chroen y pen

15. yr arwyddocâd cyfreithiol o gwestiynu'r cleient a chofnodi ymatebion y cleient
16. sut a pham y gall y gwrth-arwyddion effeithio ar gyflwyniad y gwasanaeth llacio i gleientiaid
17. sut y gall dadansoddiad o wallt a chroen y pen effeithio ar y dewis o gynhyrchion a ddefnyddir
18. pryd a sut y dylid cynnal y profion a'r canlyniadau disgwyliedig
19. sut y gall canlyniadau'r profion ddylanwadu ar y gwasanaeth llacio
20. y goblygiadau posib o fethu â chynnal profion
21. pam ei bod yn bwysig i gofnodi canlyniadau profion

22. y camau gweithredu i'w cymryd yn achos adweithiau croes i brofion a'r gwrth-arwyddion yn yr amrediad
23. terfynau eich awdurdod eich hunain yngln â datrys materion llacio
24. y person y dylech riportio problemau iddyn nhw na allwch chi'u datrys
25. rheoliadau mewn perthynas â defnydd cynhyrchion llacio a normaleiddio

Cynllunio a chytuno ar gamau gweithredu

26. pwysigrwydd cyflwyno a chytuno ar gamau gweithredu mewn ffordd y bydd eich cleient yn ei ddeall
27. sut y gall nodweddion gwallt effeithio ar lacio gwallt
28. y gwahanol ddosbarthiadau o wallt a sut y gall y rhain effeithio ar lacio gwallt
29. effeithiau cynhyrchion llacio ar strwythur y gwallt
30. y ffactorau y dylid eu hystyried wrth ddewis cynhyrchion llacio sodiwm neu heb sodiwm
31. y gwahanol fathau a'r defnydd o driniaethau cyn ac ôl-lacio sy ar gael
32. cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr ar gyfer y mathau o gynhyrchion llacio a ddefnyddir yn eich salon
33. y gwahanol fathau o ddodwyr a ddefnyddir yn ystod triniaethau llacio
34. pam ei bod hi'n bwysig i ddefnyddio diogelwyr croen y pen
35. y buddion ac effeithiau oddifewn i driniaethau cyn ac ar ôl
36. pwysigrwydd defnyddio cynhyrchion yn ddarbodus

Darparu gwasanaethau llacio

37. pwysigrwydd paratoi gwallt y cleient cyn y gwasanaethau llacio
38. y gwahaniaeth rhwng cynhyrchion llacio sodiwm a'r rhai heb sodiwm
39. y dilyniant o daenu cynnyrch i gywiro'r gwasanaethau llacio yn yr amrediad a pham bod hyn yn bwysig
40. sut mae lithiwm, calsiwm a gwanidin yn ymddwyn i newid strwythur y gwallt
41. goblygiadau defnyddio cynnyrch hydrocsid ar wallt wedi'i drin ag amoniwm thioglycolad
42. sut i adnabod y gwahaniaeth rhwng amsugnedd gwallt a cheratineiddiad naturiol
43. y canran o hyd gwallt sy'n dderbyniol i'w adael wrth drosglwyddo o gynnyrch amoniwm thioglycolad i gynnyrch hydrocsid
44. sut i greu diffiniad gwallt
45. y dull o wirio datblygiad llaciwr
46. y dull o wirio datblygiad wrth greu diffiniad

47. achosion tan-brosesu hyd canolig, diwedd a gwraidd a sut i'w cywiro
48. canlyniadau tan-brosesu a gor-brosesu'r gwallt
49. sut mae siampau niwtraleiddio'n gweithio a'u heffaith ar strwythur y gwallt
50. pryd na ddylid defnyddio triniaethau llacio cywirol
51. y canlyniadau posib o ddefnyddio cynhyrchion llacio ar wallt wedi'i drin â lliw a gwallt gwyn a sut i ddelio â nhw
52. pwysigrwydd ac effeithiau adfer cydbwysedd pH y gwallt wedi'r broses llacio
53. pwysigrwydd amseru manwl gywir
54. pam ei bod yn angenrheidiol rinsio'r cynhyrchion yn drwyadl
55. pwysigrwydd bod â threigl amser digonol rhwng gwasanaeth llacio a llacio cywirol
56. yr anesmwythdra y gall cleientiaid ei brofi yn ystod y broses llacio a pham ei bod yn bwysig cadw golwg ar eu lles
57. sut i ddelio â chosi poenus croen y pen yn ystod ac wedi'r broses llacio
58. pwysigrwydd darparu cyngor ac argymhellion am y cynhyrchion a'r gwasanaethau a gynigir yn y salon

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

1. Cynhyrchion
1.1 diogelwyr croen y pen
1.2 llaciwr sodiwm
1.3 llaciwr heb sodiwm
1.4 triniaethau cyn-llacio
1.5 triniaethau ôl-lacio
1.6 siamp normaleiddio

2. Profion
2.1 elastigedd
2.2 amsugnedd
2.3 cudynnau

3. Gwasanaethau llacio
3.1 cywiro tan-brosesu
3.2 llacio rhannol
3.3 llacio gan amrywio gwead ar yr un pen
3.4 llacio gwallt wedi'i liwio

4. Dadansoddiad
4.1 nodweddion gwallt
4.2 dosbarthiadau o wallt
4.3 cyflwr croen y pen
4.4 gwasanaethau cemegol blaenorol
4.5 gradd o lacio sy'i hangen
4.6 yr ardal darged i'w lacio
4.7 amrywio gradd elastigedd
4.8 amrywio gradd amsugnedd

5. Offer
5.1 cribau cynffon hir
5.2 cribau mân llydan
5.3 dwylo
5.4 brwsys lliwio

6. Ffactorau
6.1 tymheredd
6.2 amser
6.3 dilyniant y taenu
6.4 gwallt gwyn

6.5 graddau cronni'r cynnyrch

7. Cyngor ac argymhellion

7.1 sut i gynnal eu golwg

7.2 cyfnod amser rhwng gwasanaethau

7.3 cynhyrchion ychwanegol

7.4 gwasanaethau ychwanegol

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

1. Iechyd a diogelwch

eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch fel y diffiniwyd gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol yn ymwneud â'ch swyddogaeth
1.1 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
1.2 Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
1.3 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
1.4 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
1.5 Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario
1.6 Rheoliadau Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH)
1.7 RheoliadauTrydan yn y Gweithle
1.8 Deddf Diogelu'r Amgylchedd
1.9 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
1.10 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Weithwyr)

2. Arferion gweithio amgylcheddol a chynaladwy

y gwahanol fathau o ddulliau gweithio sy'n hyrwyddo arferion gweithio amgylcheddol a chynaladwy
2.1 lleihau gwastraff a rheoli gwastraff (ailgylchu, ail-ddefnyddio, gwaredu diogel)
2.2 lleihau defnydd egni (sychwyr gwallt egni-effeithiol, goleuo egni isel, defnydd o baneli solar)
2.3 lleihau defnydd dr ac adnoddau eraill
2.4 atal llygredd
2.5 defnyddio eitemau tafladwy (tyweli sychu sydyn)
2.6 defnyddio dodrefn wedi'i ailgylchu, ecogyfeillgar
2.7 defnyddio paent cemegol isel
2.8 defnyddio cynhyrchion gwallt organig a rhai sy'n rhydd o alergedd
2.9 defnyddio lliwyddion gwallt amonia tra isel
2.10 defnyddio deunydd pacio cynnyrch amgylcheddol-gyfeillgar
2.11 dewis cynhyrchion domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)
2.12 annog siwrneiau lleihau carbon i'r gwaith

3. Cyngor ac argymhellion

3.1 gwasanaethau ychwanegol
3.2 cynhyrchion ychwanegol

Gwerthoedd

1. Mae'r **Prif Werthoedd** canlynol yn greiddiol i gyflwyniad a chyflawniad gwasanaethau yn y sector trin gwallt a harddwch:

1.1 parodrwydd i ddysgu
1.2 cwblhau gwasanaethau mewn amser sy'n fasnachol ymarferol
1.3 cyfarfod â safonau gwisg a gwedd y sefydliad a'r diwydiant
1.4 sicrhau bod hylendid a diogelwch personol yn cyfarfod â gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
1.5 agwedd gwaith hyblyg
1.6 gweithiwr tîm
1.7 cynnal a chadw gofal cwsmeriaid
1.8 agwedd bositif
1.9 moeseg bersonol a phroffesiynol
1.10 y gallu i hunan-reoli
1.11 sgiliau creadigol
1.12 sgiliau cyfathrebu llafar a di-eiriau rhagorol
1.13 cynnal a chadw dulliau gweithio effeithiol, glanwaith a diogel
1.14 cadw at gyfarwyddiadau'r gweithle, cyflenwyr neu wneuthurwyr ar gyfer defnydd diogel cyfarpar, deunyddiau a chynhyrchion
1.15 sgiliau arweinyddiaeth

Ymddygiadau

1. Mae'r **ymddygiadau** canlynol yn greiddiol i gyflwyniad a chyflawniad gwasanaethau yn y sector trin gwallt a harddwch. Mae'r ymddygiadau hyn yn sicrhau bod y cleientiaid yn derbyn argraff bositif o'r salon a'r unigolyn fel ei gilydd

1.1 cyfarfod â safonau ymddygiad y salon
1.2 croesawu'r cleient yn barchus ac mewn modd cyfeillgar
1.3 cyfathrebu gyda'r cleient mewn modd sy'n gwneud iddyn nhw deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu
1.4 adnabod a chadarnhau disgwyliadau'r cleient
1.5 trin y cleient yn gwrtais a chynnig cymorth bob amser
1.6 hysbysu'r cleient yn gyson o'r datblygiadau diweddaraf a thawelu eu meddyliau
1.7 addasu ymddygiad er mwyn ymateb yn effeithiol i wahanol ymddygiadau cleientiaid
1.8 ymateb yn ddiymdroi i gleient sy'n ceisio cymorth
1.9 dewis y dull mwyaf addas i gyfathrebu gyda'r cleient
1.10 cadarnhau gyda'r cleient eich bod wedi deall yn llawn eu disgwyliadau
1.11 ymateb yn ddiymdroi ac yn gadarnhaol i gwestinau a sylwadau'r cleientiaid
1.12 caniatáu amser i'r cleient ystyried yr ymateb a rhoi gwybodaeth bellach

pan fo'n briodol
1.13 cael hyd i wybodaeth yn ddiymdroi a fydd o gymorth i'r cleient
1.14 rhoi'r wybodaeth sy'i angen ar gleient yngln â'r gwasanaethau a'r cynhyrchion a gynigir gan y salon
1.15 adnabod gwybodaeth sy efallai'n gymhleth i'r cleient a gwneud yn sir eu bod yn deall yn llawn
1.16 esbonio'n glir i'r cleient unrhyw resymau pam na ellir cyfarfod â'u hanghenion neu eu disgwyliadau

Geirfa

1. Dosbarthiad gwallt (canllaw yn unig ydi hyn)

Math 1 – Gwallt syth
1.1 Main/Tenau - gwallt yn dueddol o fod yn ysgafn, sgleiniog a seimlyd iawn, ac yn gallu bod yn anodd cynnal cwrlyn.
1.2 Canolig – gwallt â llawer o foliwm a thrwch.
1.3 Garw - gwallt fel arfer yn syth iawn ac anodd ei gyrlio.
Math 2 – Gwallt tonnog
2.1 Main/Tenau – gwallt â phatrwm "S" pendant. Fel arfer yn gallu cyflawni amrywiol steiliau
2.2 Canolig - gwallt yn dueddol o fod yn grychlyd ac ychydig yn wrthiannol i steilio.
2.3 Garw – gwallt hefyd yn wrthiannol i steilio ac fel arfer yn grychlyd iawn; tueddol o fod â thonnau mwy trwchus.
Math 3 – Gwallt cyrliog
3.1 Cyrlau rhydd – gwallt yn dueddol o fod â gwead cyfunol. Gall fod yn drwchus a llawn gyda llawer o swmp, gyda phatrwm "S" pendant. Mae hefyd yn dueddol o fod yn grychlyd.
3.2 Cyrlau tynn - hefyd yn dueddol o fod â gwead cyfunol, gyda swm canolig o gyrlio.
Math 4 – Gwallt cyrliog iawn
4.1 Ysgafn– gwallt yn dueddol o fod yn fregus iawn, wedi'i dorchi'n dynn ag â phatrwm cyrliog mwy diffiniedig.
4.2 Gwrychog – hefyd yn fregus iawn ac wedi'i dorchi'n dynn; fodd bynnag, gyda phatrwm cyrliog llai diffiniedig – mwy o siâp patrwm "Z".

2. Mae **Nodweddion gwallt** yn cynnwys y canlynol
2.1 dwysedd gwallt
2.2 gwead gwallt
2.3 elastigedd gwallt
2.4 amsugnedd gwallt
2.5 cyflwr gwallt

2.6 patrymau tyfiant gwallt

3. Gwrth-arwyddion

3.1 Cyflyrau sy'n dynodi na ddylid cynnal a gweithredu'r gwasanaeth.

4. Cynhyrchion Normaleiddio

4.1 Triniaethau ôl-lacio a siapau ydi'r rhain. Fe'u gelwir weithiau yn 'sefydlogyddion' neu gynhyrchion 'niwtraleiddio' ar gyfer y broses llacio.

5. Creu diffiniad (gan ddefnyddio cemegau)

5.1 Dull o lacio gwallt math Affricanaidd sy'n lleihau'r patrwm cwrl naturiol, gan adael y gwallt yn fwy ysgafn a haws ei drin. Fe weithredir y broses hon ar wallt hyd at 5cm (2 fodfedd) o hyd.

SKAAH7

Darparu amrywiaeth o wasanaethau llacio

Datblygwyd gan	SkillsActive
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	February 2014
Indicative Review Date	April 2018
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKAATH26
Galwedigaethau perthnasol	Galwedigaethau Gwasanaeth Personol; Mentrau Gwasanaeth; Mentrau mân-werthu a masnachol; Trinwyr gwallt a Galwedigaethau Cysylltiedig
Cyfres/Set	Trin gwallt
Geiriau Allweddol	Materion llacio; gwallt wedi'i drin yn gemegol; gwallt wedi'i sensitieiddio; triniaeth; dadansoddi;